# y dinesydd

Gorffennaf/Awst 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 220

# CYNGOR NEWYDD - POLISI IAITH NEWYDD?

Mae Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith wedi cael addewid gan arweinydd ac uchel swyddogion Cyngor Sir Caerdydd y byddan nhw'n cwblhau eu Cynllun Iaith yn fuan ac yn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith yn unol â gofynion Deddf 1993.

Cafodd Gareth Kiff gyfarfod a barodd am awr a hanner yn ddiweddar gyda Russell Goodway, arweinydd y cyngor a dau o'i brif swyddogion lle cadarnhawyd hynny wrtho. "Cawsom drafodaeth fuddiol," meddai Gareth, "ond doedd dim llawer o fanylion i'w cael am fwriadau'r cyngor yn y maes yma, dim ond yr addewid y byddai cynllun yn cael ei baratoi."

Cwta ddeufis ar ôl ei sefydlu, daeth polisi, neu yn hytrach, ddiffyg polisi Cymraeg Cyngor Sir newydd Caerdydd o dan y chwyddwydr. Chafodd Bethan Vaughan Cartwright, cyn-Swyddog y Gymraeg gyda hen gyngor y ddinas, mo'i chadarnhau i wneud yr un gwaith gyda'r cyngor newydd. Ymddiswyddodd Bethan mewn protest fel y clywodd gwrandawyr "Y Byd ar Bedwar" ar S4C rai wythnosau'n ôl, pan gymerodd y cyfle i feirniadu'r cyngor am ei ddiffyg cynllunio.

Roedd hen gyngor y ddinas wedi dechrau datblygu polisi Cymraeg gweithredol ac mae 'na amheuaeth a fydd y gwaith hwnnw'n parhau yn y cyngor newydd heb swyddog sydd â chyfrifoldeb penodol dros hybu a datblygu'r polisi hwnnw yn ei holl agweddau.

Mae un peth yn sicr beth bynnag, fe fydd cyfle i ni i gyd fynegi barn ar Bolisi Iaith y cyngor newydd gan fod yn rhaid iddyn nhw ymgynghori'n gyhoeddus ar gynnwys eu polisi yn unol â'r Ddeddf. Felly fel y rhybuddiodd *Y Dinesydd* yn rhifyn mis Mawrth, mynnwch wasanaeth Cymraeg, wrth lythyru, dros y ffôn, mewn swyddfa neu lle bynnag.

Sawl parti pen-blwydd sydd wedi ei gynnal yng nghanolfannau hamdden y ddinas, er enghraifft, i blant ein hysgolion Cymraeg? Siawns bod o leiaf un neu ddau o'u holl staff yn siarad Cymraeg. Beth amdani, Uchel Swyddogion y ddinas, beth am roi ar ddeall i'r rhieni bod modd cael rhywun i chwarae gemau gyda'r plantos bach yn Gymraeg? Does bosib bod hynny'n ormod i ofyn amdano!

# Graham yr Alltud

Mae'n werth bod yn ALLTUD os yw hwnnw'n rhif cofrestru Freight Rover crand. Dyna'r rhif personol sydd gan Graham Jones, Eskdale Road, Glan-y-llyn ar ei 'gar' ef.

Pam y fath rif? Wel, mae mab Graham Jones â diddordeb ymarferol yng Nghlwb Rygbi Llundain ac maen nhw'n eu galw'u hunain yn EXILES. Ac i bwysleisio hynny, mae'r trosiad Saesneg o dan y rhif 'Cymraeg', er bod Graham ei hun ymhell o fod yn alltud yn y ddinas.



*Graham Jones a'r rhif cofrestru diddorol* *Llun: Robin Griffith*

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst 1996, Rhif 220.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*. Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Medi at un o'r canlynol erbyn 15 Awst:**

Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 481280 est. 236): Gweithgareddau Dysgwyr.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## FFURFLEN CYFRANNU A THANYSGRIFIO

a. Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd. ☐

b. Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*. ☐

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit,
2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 152** **Gorff./Awst 1996**



**AR DRAWS**

7. Yn ôl llawer o ddiwinyddion, pechod felly a ddaeth i ran y ddynoliaeth wedi'r cwymp. (9)
8. Ewch ar hwn i ymneilltuo. (5)
10. Cafodd y brawd D.E. ei achub ar ôl cael tröedigaeth. (8)
11. Eddi. (6)
12. Ffordd hyfryd o drin hirwallt merch. (4)
13. O'r naill ochr i'r llall ar hyd y ffordd. (4-4)
15. Ymateb pan fydd cyfarwyddyd y gerddoriaeth yn dweud allegro. (7)
17. Yn llwyr orffenedig. (7)
20. Gallu pwerus yn dwad o du'r rhai a gaiff yr hawl. (8)
21. Un o ieithoedd swyddogol Pacistan. (4)
24. Cyflwr blewog y llencyn ifanc. (6)
25. Yn driw yn wreiddiol, ond wedi mynd yn yfflon ar ôl agorawd dda. (2,6)
26. Diengyd o afael ci Dan. (5)
27. Erthylu cig yn ddieflig. (9)

**I LAWR**

1. Dyw'n gwybod dim am droi oddi ar y llwybr. (5)
2. Gwrywaidd neu fenywaidd yw holl drigolion y wlad. (6)
3. I ffwrdd ohonom ni. (8)
4. Sôn sydd yma am groesi'r Iwerydd a thro D.M. i Ganada.(7)
5. O gael hyn i drefn daw rhywbeth anghredadwy i'r fei. (8)
6. Efallai y bydd bwlch yn gwneud y peth yn bosib. (9)
9. Wele! mae rhywbeth wrth law. (4)
14. Wyth ci Deio yn ymdrechu at yr un diben. (9)
16. Tôn angladdol sydd hefyd yn ddinas yn yr Yswistir. (8)
18. Mewn dull unfath. (2,2,4)
19. Gwyliwr. (7)
22. Dydd y dillad gorau. (3,3)
23. Byseddu. (5)


**Cystadleuaeth Rhif 152**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Cyncoed, erbyn 15 Awst os gwelwch yn dda.

**PPS Argraffwyr Arloesol**

139 STATION ROAD • YSTUM TAF • CAERDYDD • CF4 2FE
FFÔN: (01222) 566046 FFACS: (01222) 575203

Gwasanaeth argraffu llawn trwy gyfrwng y Gymraeg




**Llongyfarchiadau** i Megan Morris, Tŷ Draw Rd., ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed ar 18 Gorffennaf. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd yng Nghaerdydd a Garnswllt.

**Llongyfarchiadau** i Liz a Hywel Emrys, Pen-y-lan, ar enedigaeth Gruffydd Samuel Rhys, brawd bach i Ffion a gwyliwr arall i 'Bobol y Cwm'!

**Dymuniadau** gorau i Bethan Vaughan Cartwright sydd nawr yn gweithio fel Ymgynghorydd gydag asiantaeth recriwtio Austin Knight yng Nghaerdydd.

## CYDYMDEIMLO

Dymuna eu cyfeillion a'u cydnabod niferus anfon eu cofion at Malcolm a Iona Wyn Williams ac Elian, sy'n byw yng Nghyncoed. Bu farw Mrs Mair Williams, mam Malcolm, yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn ddiweddar. Malcolm yw Rheolwr Materion Cyhoeddus y Cyngor Chwaraeon, a Iona yw Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Tai Cymru. Bu'r angladd yng Nghapel Bethel Newydd, Glanaman ar 31 Mai.

## DYRCHAFIAD I MARI EVANS YN HTV CYMRU

Mae Mari Evans wedi'i phenodi'n Rheolwr Materion Corfforaethol a Chymunedol HTV Cymru. Ymunodd Mari ag Adran y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus HTV yn 1986 ac yn 1990 fe'i dyrchafwyd yn Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus.



Fel Rheolwr Materion Corfforaethol a Chymunedol, swydd a grewyd yn ddiweddar, Mari Evans fydd yn gyfrifol am reoli perthynas HTV Cymru â chyrff a mudiadau yn y gymuned, yn cynnwys noddi a chysylltiadau â gwirfoddolwyr a hysbysebwyr. Yn ogystal â'i dyletswyddau newydd, fe fydd Mari'n parhau i weithredu fel Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus.

Yn Abertawe y ganwyd Mari Evans a'i chodi yng Nghaerdydd, Wrecsam a Meisgyn ger Llantrisant. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Gyfun Llanhari a Phrifysgol Caerhirfryn *(Lancaster)* lle graddiodd mewn Ffrangeg a Rheolaeth Marchnata. Yng Nghaerdydd y mae ei chartref ac mae'n un o gefnogwyr selog Clwb Criced Morgannwg.

## MERCHED Y WAWR - BRO RADUR

Mae rhaglen y Gymdeithas yn addo bod yn ddifyr iawn yn ystod y tymor i ddod. Bydd yn amrywio o chwarae ceilys i wrando ar gantorion opera a swper yn Harry Ramsden's. Bydd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher 11 Medi yn Neuadd y Methodistiaid, Radur am 7.30. Am fanylion pellach, cysylltwch â Brenda Jones ar 842946.

## PRIODAS YNG NGLYN RHOSYN

'Priodas y flwyddyn yn y gadeirlan' oedd geiriau amryw yng Nghadeirlan Tyddewi rai wythnosau'n ôl pan briodwyd Eluned Morgan, yr Aelod Seneddol Ewropeaidd ac un o'n dinasyddion â'r Dr Rhys Jenkins, sy'n feddyg yn ardal Trelái.

Roedd y gadeirlan yn llawn, a nifer wedi dod yno o dros y byd i gyd gan i Eluned dreulio blwyddyn yng Ngholeg Iwerydd ac roedd nifer mawr o'i dosbarth wedi dod i fod yn dystion o'r uno yng Nglyn Rhosyn.

Deallir y bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn ardal Trelái. Dymuna'r *Dinesydd* bob lwc a bendith iddyn nhw.

# PENARTH A'R CYLCH

### Colli Mrs Jane Elliott

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Mrs Jane Elliott, 1 Cliff Side, Fforest Road, Penarth, un o aelodau hynaf eglwys Bethel a hithau wedi cyrraedd yr oedran cyflawn o 93 mlwydd oed. Roedd Mrs Elliott yn frodor o ardal Abertawe ac yn y ddinas honno y bu'n gweithio fel athrawes hyd ei hymddeoliad. Yn fuan wedyn daeth i fyw at ei merch Mrs Mary Lewis a'i theulu ym Mhenarth ac ymaelodi yn eglwys Ebeneser, Caerdydd. Treuliodd y teulu rai blynyddoedd yn Lloegr cyn dychwelyd ac ymsefydlu yn yr ardal hon unwaith yn rhagor. Ailymaelododd y teulu yn eglwys Bethel, Penarth. Bydd y bwlch ar ei haelwyd ac yn ei chapel yn fawr ond y cof amdani yn harddu blynyddoedd ei theulu a'i chydnabod.

### Dyrchafiad i Gill Lloyd

Cafodd aelodau Bethel achos i lawenhau yn nyrchafiad Mrs Gill Lloyd i'r swydd o Ddirprwy Brifathrawes yn Ysgol Gymraeg Pen-y-garth. Fe'i penodwyd i olynu Mr Iwan Davies a ymddeolodd dros gyfnod y Pasg. Magwyd Gill yn ardal Llangrannog a chafodd ei haddysgu yn Ysgol Uwchradd Aberteifi a Choleg Addysg Cyncoed, Caerdydd. Dymuna'r *Dinesydd* yn dda i Iwan yn ei ymddeoliad ac i Gill yn ei swydd newydd.

### Gwasanaeth y Plant

Dydd Sul, 2 Mehefin, cynhaliwyd gwasanaeth y plant yng nghapel Bethel, Penarth. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Osian Lewis, Mali Lewis, Tomos Lewis a Rachel.

## CANU GYDA'R MAWRION

Bu Côr Ardwyn, Caerdydd yn Barbados am bythefnos yn ystod y Pasg yn cyflwyno nifer o gyngherddau. Daethai'r gwahoddiad yn wreiddiol oddi wrth y Gŵr Mawr ei hun, Luciano Pavarotti, pan fu'r Côr yn canu gydag ef yng Nghaerdydd y llynedd. Fel y digwyddodd, ni allai'r Tenor Mawr fynd i Barbados wedi'r cyfan, ond doedd y Côr ddim am golli cyfle fel hyn, ac ymaith â nhw yn griw o ryw 35 dan arweiniad Helena Braithwaite, a Janice Ball yn gyfeilyddes. Os oedd eich copi o'r *Dinesydd* ychydig yn hwyr yn cyrraedd dros y Pasg, y rheswm oedd fod eich Prif Ddosbarthwr, Robin Jones, yno hefyd yn cyflwyno'r cyngherddau. A'r unawdydd oedd ei ferch, Iona Jones, ond ei bod wedi newid ei henw i Mrs Rhys Lloyd Thomas ddiwrnod cyn i'r Côr ymadael - er mwyn cael mynd â'i gŵr newydd gyda hi. Llongyfarchion cynnes i'r ddau ifanc, a lwc dda yn eu cartref newydd yn Llandaf.

## GŴYL GORAWL YN LLANDAF

Roedd Cadeirlan Llandaf yn llawn at y drws ar gyfer Gŵyl Gorawl Eglwysi Cymraeg Esgobaeth Llandaf ar 17 Mehefin. Roedd yn dda gweld bod gwasanaeth o fawl yn y Gymraeg yn gallu llenwi'r lle.

Estynnwyd croeso i'r gynulleidfa gan y Parchedig Aled Edwards, Ficer Eglwys Dewi Sant, a chanwyd yr Hwyrol Weddi gan y Parchedig Maxwell Evans. Cafwyd pregeth rymus gan Gyn-Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig George Noakes, a thraddodwyd y fendith gan Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Roy Davies.

Am flynyddoedd roedd dolen gyswllt hyfryd rhwng yr ŵyl hon ag Ysgol Gymraeg Bryn-taf, Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd. Mae'n hyfryd gweld bod Ysgol Pen-cae (sydd yn adeiladau'r hen ysgol) yn parhau'r traddodiad hwn. Fe ddaeth nifer o blant i lefaru ac i ganu emynau fel rhan o'r gwasanaeth, gan wneud hynny gyda graen. Yn wir, roedd yn hyfryd gweld cynifer o bobl ifanc yn y gynulleidfa. Arweiniwyd yn canu gan Hywel Davies, a Philip Laugharne oedd wrth yr organ.

## Gweirydd Thomas, Eglwys y Crwys

Roedd Mr William Gweirydd Thomas, blaenor da yn ein plith ac un o ddisgyblion annwyl yr Arglwydd Iesu Grist, yn addoli gyda ni fore Sul, 12 Mai. Cymerwyd ef i Ysbyty'r Brifysgol ganol y prynhawn ac fel yr oedd hi'n nosi hunodd yn dawel a'i deulu o gwmpas ei wely.

Bu cysylltiad Mr Gweirydd Thomas â'r Crwys yn un hir a hapus. Daeth i'r brifddinas o Gwm Rhondda, a nod diwylliant ei deulu a Jerusalem, Tonpentre, yn amlwg arno. Cafodd ef a'i briod, Nel, ddwy o ferched a gofleidiodd eu gwerthoedd, Eleri a Rhoswen, a bu'r ddwy a'u gwŷr, Vivian ac Alewyn, yn gefn ac yn gysur i'w rhieni trwy gydol y blynyddoedd. Cyfanwyd y llawenydd teuluol hwn gan yr wyrion, Gareth, Sara, Prys a Trystan. Bellach, mae'r teulu clòs wedi'i fylchu, a ninnau, fel hwythau, wedi cael colled fawr.

## LLONGYFARCHION




Llongyfarchion i David Jenkins ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i wasanaethu ar Fwrdd Grŵp HTV. Mae David yn un o'r dinasyddion erbyn hyn ond cafodd ei eni ym Maesteg a chafodd ei addysg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ymunodd â HTV yn 1982.

Un arall sydd â phroffil uchel yn y grŵp yw dinesydd arall sy'n hanu o Faesteg sef Menna Richards. Ymunodd Menna â HTV yn 1983 fel newyddiadurwraig a golygydd rhaglenni. Mae hi'n awr yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Darlledu. Mae hi hefyd yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, Caerdydd.

## O DROED YR ANDES I DROEDIO CYMRU

Ar ddiwedd Mehefin fe ddaeth tua thri dwsin o aelodau o Gôr Seion, Esquel, i Gymru, gan dreulio deuddydd neu dri yn y brifddinas cyn mynd ar eu taith dros weddill Cymry. Tra yn y brifddinas, cawsant lety ar aelwydydd rhai o'r dinasyddion. Mae'n hyfryd meddwl bod cynifer ohonyn nhw'n medru'r Gymraeg yn ogystal â Sbaeneg ac nad oes fawr neb ohonyn nhw'n gallu siarad Saesneg! Gobeithio y cânt flas ar fynd o gwmpas gwlad eu gwreiddiau.

## DYRCHAFIAD PWYSIG I ANGHARAD JONES

Mae'r *Dinesydd* yn ymfalchïo yn nyrchafiad Angharad Jones i fod yn gomisiynydd drama i S4C. Un o blant Caerdydd yw Angharad, yn ferch i Lisa a Gwyn Erfyl. Mae wedi bod yn llunio sgriptiau drama am tua deng mlynedd ac mae'r dyrchafiad hwn yn gam teilwng iddi ar ei gyrfa ddisglair. Efallai y gwelwn ni hi'n ôl yn amlach yn y ddinas yn awr. Ar hyn o bryd mae'n byw gyda'i theulu yn nhre Caernarfon.

## COFIO AM WRAIG HYNAF EGLWYS DEWI SANT

Ym marw diweddar Mrs Muriel Jones, ffarweliwn ag aelod hynaf Eglwys Dewi Sant o blith y gwragedd. Anti Mwy oedd hi i bawb a chyrhaeddodd yr oedran teg o 90 yn ei chartref yn Kyle Crescent, Rhiwbina. Roedd yn hanu o Gwmafan ac yn wraig i'r diweddar Ben Jones a fu am flynyddoedd yn gyfarwyddwr Argraffdy William Lewis yn y ddinas. Roedd hi a'i gŵr yn hael iawn eu cymwynas i'w heglwys. Yr enghraifft fwyaf gweladwy o'u haelioni yw piano grand cain.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Marw Jim Fairclough, Eglwys Dewi Sant

Mae 'na rai pobl mewn addoldy y gallwch ddweud amdanyn nhw mai nhw yw conglfaen y lle. Un felly oedd Jim yn Eglwys Dewi Sant. Ef oedd un o'r rhai amlaf i lawr yn y seler yn gofalu am y system wresogi, ef oedd yn cadw'i lygaid ar y trydan, yn gofalu fod pob bylb yn gweithio. Ef am flynyddoedd oedd yn gyfrifol am gadw'r lle'n lân ac yn gymen. Roedd yn gwybod am bopeth, a phopeth yn annwyl iddo. Mewn ffordd, yr eglwys oedd ei fywyd, yn rhan weledol o'i gariad at ei Grist. Roedd fel pe bai'n rhan ohoni. Dyna paham yr oedd yn gymaint o sioc i'r aelodau glywed rai Suliau'n ôl ei fod wedi marw'n sydyn.


Roedd ei wreiddiau ym Maenclochog ym Mhenfro ond daeth i Gaerdydd i weithio ar y rheilffyrdd a dyna fu ei waith go iawn nes iddo ymddeol. Yn Newi Sant, mae'n debyg mai ef oedd yr unig berson (ar wahân i'r arweinyddion a'r swyddogion, wrth reswm) yr oedd pawb yn ei adnabod. Roedden nhw'n cynhesu at ei ffordd radlon o gyfarch pawb, ei wên, ei garedigrwydd a'i hiwmor. Pan fyddai'r *Dinesydd* yn cyrraedd yno, byddai'n gofalu ei fod ar y bwrdd bach wrth y drws i ddal llygad pawb a'r plât cyfraniadau ariannol yn ei ymyl. Byddai'n gofalu bod yr holl gyhoeddiadau eraill yn drefnus ac unrhyw nodyn i aelod yn cyrraedd pen ei daith. Bydd yn gadael gwacter enfawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod a'i deulu yn eu galar a'u colled.

## Bethel, Rhiwbina

Llongyfarchiadau i aelodau Ysgol Sul Bethel ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Maelor. Fe ddaeth Siân Elen Williams yn gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru unigol rhwng deg a deuddeg, a Gwenllian Elfyn yn ail yn y ddeuawd dan ddeuddeg gyda Hannah Fflur Daniel. Roedd Gareth Wyn Jones yn aelod o grŵp llefaru Ysgol Melin Gruffydd a ddaeth yn ail dan arweiniad Mrs Gwenda Francis.

Ym Methel brynhawn Sul, 9 Mehefin, cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid yn ôl trefn eglwysi cyfamodol Enfys. Croesawyd cynrychiolwyr y gwahanol eglwysi gan y gweinidog, y Parchedig Pamela Cram. Cafwyd anerchiad gan y Parchedig Dafydd Owen a bu nifer o weinidogion eraill yn cymryd rhan. Yr organydd oedd y Dr Richard Elfyn Jones. Diolchwyd i Mr R. Emrys Jones am drefnu'r gwasanaeth.

## Dau Seiciatrydd yn Ebeneser




Cafwyd cyfarfod hynod o ddiddorol o Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd nos Iau, 9 Mai. Daeth dau seiciatrydd, y gwyddom fod eu daliadau diwinyddol yn dra gwahanol i'w gilydd, i agor ar 'Yr Ysbryd Glân a'i waith'.

Y Dr David Enoch a siaradodd gyntaf. Bwrdwn ei neges oedd fod angen tywalltiad o'r Ysbryd Glân arnom heddiw. Mae dyn yn gyfuniad o gorff, meddwl ac ysbryd, a thrwy ein hysbryd yr ydym yn cysylltu â Duw. Mae'r corff yn deml i'r Ysbryd Glân. Mae bendith Toronto yn dod o Dduw, nid o Toronto. Yr Ysbryd Glân yw sylfaen cymdeithas, ac fe welir hyn yn glir mewn cymdeithas sy'n hyrwyddo partneriaeth a chyfeillgarwch; mae'n rhoi nerth i wneud ei waith; a hefyd y mae'n gynghorwr sy'n iacháu.

Un o flaenoriaid y Crwys, y Dr Dewi Lewis, oedd yr ail siaradwr. Dywedodd nad oedd profiadau fel bendith Toronto yn newydd o gwbl, ac fe ddyfynnodd hanes am nifer o ddigwyddiadau o'r ddeunawfed ganrif. Nid oedd John Wesley yn cymeradwyo'r fath ddigwyddiadau gan eu disgrifio fel 'hysteria, lunacy or the deliberate influence of the devil'. Tuedd y rhai sy'n rhoi pwys mawr ar brofiadau o'r fath yw dibynnu'n llwyr ar yr emosiwn (nid yr un peth yw hwn â'r teimlad) gan anwybyddu'r deall. Camgymeriad mawr yw hyn gan fod yn rhaid wrth y ddau i gydweithio i fod yn gwbl effeithiol. Dyna mae'n debyg oedd ym meddwl Iesu pan ddyfynnodd o broffwydoliaeth Eseia: 'Er gwrando a gwrando, ni ddeallwch ddim; ac er edrych ac edrych, ni welwch ddim. Canys brasáwyd deall y bobl yma, y mae eu clyw yn drwm, a'u llygaid wedi cau; rhag iddynt weled â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, a *deall* â'u meddwl.' Mae'r syniad ein bod yn cael ein meddiannu gan yr Ysbryd Glân er mwyn ein manipiwleiddio ganddo yn sarhad ar Dduw ac ar ddyn. Cymaint gwell yw i ni ymdrechu i chwilio am y gwirionedd. Ni allwn ni byth feddiannu'r gwirionedd; os teimlwn ein bod wedi dod o hyd iddo, yna fe'i collwn.

Roedd festri Capel Ebeneser yn orlawn o bobl am glywed beth oedd gan y ddau ŵr dysgedig i'w ddweud wrthym. Ni chafodd neb ei siomi, ac fe aethom adref gyda llawer iawn i gnoi cil arno.

***Delwyn Tibbott***

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG dan ofal B.D. Harries

## Digwyddiadau yn Ysgol Treganna

Bu Dosbarth Lleu yn ymweld ag Ysgol y Maestir, Sain Ffagan. Chwarae teg, roedd pob un ohonynt mewn gwisg o Oes Fictoria. Roeddent hefyd wedi bod yn brysur yn gwneud lemonêd cartref a bisgedi ceirch i'w bwyta amser cinio.

Yn y llun mae'r plant yn cael gwers gan eu Pennaeth, Rhys Harries - profiad arbennig fel y gwelir o wynebau syn y plant. Gwelir eu hathrawes ddosbarth a dwy fam yn y cefndir.



*Sain Ffagan, Mai 1996*

Dathlwyd Dydd Ewyllys Da gan Ddosbarth Lleu mewn gwasanaeth ysgol ar 18 Mai. Darllenodd y plant negeseuon arbennig i blant Mali. Gwasanaeth meddylgar.

Bu côr yr ysgol yn Stiwdio y BBC yn Llandaf yn recordio caneuon ar gyfer y rhaglen Sioe Gerdd. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn nhymor yr Hydref.

Ymwelodd rhai o blant yr Adran Iau â Neuadd Dewi Sant. Yno cawsant gyfle i glywed ac i greu cerddoriaeth go wahanol, Cerddoriaeth Gamelau. Bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn creu melodiau. Dysgwyd llawer am gefndir yr offerynnau, a'r gwledydd lle y cânt eu chwarae.

Daeth Cwmni Theatr Heritage i'r ysgol i roi blas ar fywyd pobl gyffredin yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd cyfle i wisgo gwisgoedd swyddogol o'r cyfnod, a chymryd rhan mewn amrywiol sefyllfaoedd. Daeth cyfle ar ddiwedd y perfformiad i holi ac ateb cwestiynau, ac i drafod y defnydd a wnaed o nifer o'r arteffactau a ddangoswyd gan y ddau actor.

---

## Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

### Kwik Criced

Ar 4 Mehefin aeth tîm criced Melin Gruffydd i Erddi Sophia i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Kwik Criced Sir Caerdydd. Ar ôl diwrnod hir o chwarae caled cyrhaeddodd y bechgyn y rownd derfynol yn erbyn Rhydypennau. Y tro yma bu rhaid bodloni ar fod yn ail.

Ar 18 Mehefin bu cystadleuaeth griced arall a noddwyd gan Wrigleys. Y tro hwn enillodd Melin Gruffydd y gystadleuaeth o blith ysgolion o Sir Bro Morgannwg a Sir Caerdydd.



*Y tîm buddugol. Iwan Simpson, Owain Thomas, Martin Jenkins, Lewis Davies, Gwyn Ford, Joseph Shaw, Dylan Jones, Rhodri Lloyd a Mathew Preece.*

# NEWYDDION YR URDD

Caerau, Llwyn y Gibwst
Llansannan, Dinbych
Conwy LL16 5HQ

Mehefin 1996

Dathlu Pen-blwydd yr Urdd yn 75 oed

Annwyl Gyfaill

Diolch i chi am ganiatáu lle i mi yn eich papur bro i wneud apêl ar ran Panel Dathlu Pen-blwydd yr Urdd yn 75. Y flwyddyn nesaf byddwn yn dathlu 75 mlynedd ers sefydlu'r Urdd ym 1922, ac y mae nifer o weithgareddau'n cael eu trefnu gan gynnwys Jambori yng Nghaerdydd, Cyngerdd y Dathlu yng Nghorwen a chyflwyniad gan ieuenctid y fro ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol y Bala.

Bwriad arall gennym yw cyflwyno bathodyn unigryw i bawb fydd yn ymaelodi â'r Urdd yn ystod y flwyddyn nesaf. Cyfuniad o'r bathodyn gwreiddiol a'r un presennol ydyw a 75 wedi ei osod yn ei ganol. Edrych ymlaen yw ein bwriad, ond nid ydym am anghofio'n haelodau gwreiddiol ychwaith, a dyna fwriad y llythyr hwn.

Os oedd unrhyw un o'ch darllenwyr yn aelod o'r Urdd yn ystod y flwyddyn gyntaf honno, yna fe hoffai'r Urdd wybod er mwyn i ni allu cyflwyno bathodyn unigryw y dathlu iddo ef neu hi. Felly, tybed a fyddai aelodau cyntaf yr Urdd yn dymuno cysylltu â mi cyn diwedd yr hydref fel y gallwn drefnu achlysur i gyflwyno'r bathodyn iddynt yn lleol neu'n genedlaethol.

Edrychaf ymlaen at gael gair ac at gyfarfod â hwy.

Yn ddiffuant
Alwyn Williams
Swyddog Datblygu Cenedlaethol

## TRIP YR URDD - CYMRU v SAN MARINO

Mae'r Urdd yn Ne Morgannwg wedi trefnu trip pêl-droed i weld Cymru yn chwarae yn erbyn San Marino. Mae'r trip wedi ei drefnu ar gyfer pnawn dydd Sadwrn 31 Awst. Croeso i blant blynyddoedd 4, 5 a 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg De Morgannwg. Cost y trip fydd £6. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Sian Jobbins - 236201.

## PENODIAD NEWYDD

Llongyfarchion i Jim O'Rourke, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Marchnata Cwmni Opera Cymru, ar gael ei benodi'n Brif Weithredwr yr Urdd. Cyn mynd at y Cwmni Opera, roedd yn adnabyddus i gannoedd o blant Cymru fel Pennaeth Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Gŵr o Sir Benfro yw Jim O'Rourke yn enedigol, a bu'n gweithio i'r Urdd mewn amrywiol swyddi er 1978. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ar 1 Medi eleni.

## CARAFAN A GARAF I

Bydd Eisteddfod yr Urdd yn Llŷn ac Eifionydd yn 1998. I gasglu arian mae'r bobl leol wedi trefnu CROESO CHWILOG rhwng 20-23 Medi 1996.

Estynnir gwahoddiad i garafanwyr dreulio penwythnos ym Mro Llŷn ac Eifionydd iddyn nhw gael cyfle i gael rhagflas o naws yr ardal.

Fe fydd nifer o weithgareddau'n cael eu trefnu gan gynnwys teithiau i fannau arbennig fel y Lôn Goed a bydd yno weithgareddau i blant. Os yw unrhyw ddinesydd am fachu ei garafan wrth gwt ei gar i fynd yno, bydd yn rhaid iddo dalu £25 i Gwilym Thomas, Trewerin, Chwilog, Pwllheli (01766) 810257.

## CLWB CRICED YR URDD

Sefydlwyd Clwb Criced yr Urdd ddwy flynedd yn ôl ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 & 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg De Morgannwg. Mae'r Clwb yn cwrdd bob nos Iau rhwng 5.15pm - 6.15pm ar Gaeau Llandaf, Pontcanna. Bydd y clwb yn rhedeg tan ddiwedd mis Gorffennaf.

Mae gan y clwb dros 40 o aelodau cyson o ysgolion Pen-cae, Treganna, Melin Gruffydd a'r Wern. Mae amryw o'r bechgyn hyn sy'n ymarfer efo'r clwb yn chwarae criced i dîm Sain Ffagan a hefyd i Dde Morgannwg. Hoffai'r Urdd ddiolch i Gary Lewis a Gwilym Boore am ddysgu'r plant bob wythnos.



*Aelodau Clwb Criced Nos Iau*

# YSGOL GLANTAF

## EISTEDDFOD BRO MAELOR

Siân Elin Couch o Ysgol Glantaf a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth barddoniaeth i flynyddoedd 12 a 13 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Maelor. Dyma'i cherdd fuddugol.

DAIL
Y canghennau îr yn drwm
A'r egin yn blaguro'n
Llawn gobaith
Am yfory;
Gwefr y gwres
A'r cydio tynn
Yn sicrwydd bytholwyrdd
Yn llawnder y dail.

Gwyrddni ieuenctid
Yn nwyfus hudol
Yn nawns y dail;
Trydar adar yn denu
Cymar yn y bore bach,
A'r caru dirgel
Yn ddolen gwlwm
Am yfory.

Daeth ias i gynhesrwydd y dail
A chwa yr awel
Yn gyflym gyniwair
I aflonyddu
Ar y llonyddwch;
Y dail yn araf felynu
A'r cydio yn peidio bod.
A'r caru cudd rhwng y brigau
Yn bŵl yng nghrafangau'r cof.

Crinodd y dail,
Moelni oer y canghennau
Yn fregus gydio
Mewn brigyn o atgofion
Am y ddoe
Na ddaw yn ôl
Ac ansicrwydd brau
Am ryw yfory.

Daeth chwip y gwynt
I noethi'r canghennau;
Y rhisgl yn crebachu
A'r brigau'n gwyro'n llipa
Am faeth o ddiffrwyth dir;
Llwm yw pob yfory
Ym mhoen y gwywo.

Heno
Cwympodd y dail.

## CRICEDWR O FRI

Llongyfarchiadau i Nicky Robinson, sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 9 yn Ysgol Glantaf, ar gael ei ddewis i chwarae criced dros Gymru yn y tîm dan 14 oed. Bu'r tîm ar daith yng ngorllewin Lloegr yn ddiweddar.

## MABOLGAMPAU GLANTAF

Cynhaliwyd Mabolgampau Glantaf ar ddiwrnod crasboeth o Fehefin yn Stadiwm Lecwydd. Roedd holl gyfleusterau gwych y stadiwm at ddefnydd y disgyblion a chafwyd cystadlu brwd rhwng y pedwar llys. Dyfrig oedd y llys buddugol ar ddiwedd y dydd.

## ATHLETAU

Llongyfarchiadau i dîm blynyddoedd 7 ac 8 ar ennill cystadleuaeth athletau De Morgannwg. Nhw nawr fydd yn cynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth ysgolion Cymru yn Aberhonddu.

## DYRCHAFIAD

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mr Ellis Griffiths, un o ddirprwyon Ysgol Glantaf, ar gael ei benodi yn brifathro newydd Ysgol Gwynllyw.

## PRIODASAU

Llongyfarchiadau i Mr John Hayes, pennaeth Adran DaearyddiaethYsgol Glantaf, ar ei briodas yn ddiweddar. Dymuniadau da i Mr Wyn Jones a Miss Beca Evans ar eu priodas hwythau yn ystod gwyliau'r haf.

## CYSTADLEUAETH BUSNES

Cynhaliwyd cystadleuaeth busnes i ysgolion cyfun De Morgannwg gan y cwmni "Allied Steel and Wire". Aelodau tîm Ysgol Glantaf oedd Rhys Jones, Louise Hartrey, Rhian Samuel a Tomos Packer. Roedd efelychu holl brosesau rhedeg gwaith dur yn gofyn am gydweithrediad agos rhwng aelodau'r tîm. Daeth wyth tîm i'r rownd derfynol, ac ar ôl cystadleuaeth arbennig o dda dyfarnwyd y wobr gyntaf i Ysgol Fitzalan a'r ail wobr i Ysgol Glantaf. Yn y llun gwelir aelodau o dîm Glantaf yn derbyn eu gwobrau gan un o gyfarwyddwyr "Allied Steel and Wire".



*Aelodau tîm busnes Glantaf*

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




### HAF I'W ANGHOFIO

Erbyn hyn bydd y rhan fwyaf ohonoch wedi anghofio'r ymweliad ag Awstralia pan gafodd Cymru ddwy grasfa arall. Gwelais i'r ddwy ornest, ond yn sicr nid anghofiaf i nhw.

Cafodd chwaraewyr gorau Awstralia gyfle euraid i baratoi ar gyfer gornestau rhyngwladol eu gaeaf wrth iddynt gystadlu dros y rhanbarthau yng nghystadleuaeth y Goruwch 12, a ddechreuodd eleni yn Hemisffer y De. Bu pum tîm o Seland Newydd ynddi, ynghyd â phedwar o Dde Affrica a thri o Awstralia, ac fe'i henillwyd gan Auckland a gurodd Natal yn ôl y disgwyl o 45 pwynt i 21 (chwe chais i ddau). Bu Taleithiau Queensland a Deheubarth Cymru Newydd, a Thiriogaeth y Brifddinas yn cynrychioli Awstralia, a chwaraeodd Cymru y Diriogaeth yn ei hail ornest - 69 pwynt yn erbyn 30 oedd y canlyniad, ac fe wyddem y pryd hwnnw beth y byddai'n rhaid inni ei wynebu yn y gornestau yn erbyn Awstralia a Thîm B y wlad. Sgoriwyd pedwar cais yn y 30 pwynt, tri yn erbyn Awstralia yn yr ornest gyntaf, chwech yn erbyn Tîm B ond dim yn yr ail ornest ryngwladol. Er inni sgorio tri chais yn Brisbane, bu Awstralia ar y blaen o 40 pwynt i 6 yn yr hanner olaf cyn inni weld rhyw gymaint o wellhad, ac ar yr un maes, sef Ballymore, yn yr ornest nesaf sgoriodd yr Awstraliaid bedwar cais a 24 o bwyntiau cyn i Arwel Thomas drosi cic gosb.

Proffwydais i y byddai'r sgôr yng ngornest olaf y daith - yn erbyn Awstralia yn Stadiwm Sydney - yn nes nag yr un gyntaf (56–25) yn Brisbane, er na ddisgwyliwn fuddugoliaeth wrth reswm, ond 42 i 3 oedd hi â chwe chais yn y cyfanswm. Dysgu yr ydym ni - dyna a'i clywid dro ar ôl tro gan bawb bron, a dysgu a fuom ni ers chwarter canrif pan aeth Cymru i Seland Newydd gyntaf yn 1969. Y gwir yw, nid dysgu yr ydym ni o gwbl, eithr anwybyddu'r gwirionedd amlwg mai gêm i ddynion heini, athletaidd a chryf yw rygbi erbyn hyn.

Bydd yn rhaid inni sicrhau fod pawb, yn enwedig y blaenwyr, yn ddigon cryf i gystadlu yn erbyn gwledydd Hemisffer y De - ac yn erbyn Ffrainc hefyd; rhaid i'r dewiswyr anwybyddu'n llwyr unrhyw un nad ydyw'n heini a chryf, ni waeth beth fydd ei daldra. Nyni yw'r genedl leiaf ac eithrio Siapan sy'n chwarae rygbi, ond ni ddylid dewis unrhyw un yn unig am ei fod yn dalach na neb arall.

Nid oes angen chwarae mewn unrhyw gystadleuaeth, megis y Goruwch 12, er mwyn sicrhau fod pawb yn heini a digon cryf - dylai pawb allu gweld hynny drosto'i hun. Gwelwyd rhywfaint o wellhad o gymharu â'r ymweliad yn 1991, pan enillodd Awstralia o 63-6 (deuddeg cais i ddim), ond anferth yw'r bwlch o hyd, a thrydedd yw Awstralia, cofier, y tu ôl i Seland Newydd a De Affrica. Rwyf i'n ddiolchgar dros ben nad i Wlad y Cwmwl Gwyn Hir yr aethom y tro hwn. Bydd sôn am Ballymore (maes Brisbane) yn gyrru iasau drwof am weddill fy oes; yn 1987 gwelais y Crysau Duon yn ein curo yno o 49-6 yng Nghwpan y Byd, yna'r cweir gan Awstralia o 63-3 yn 1991 ac eleni o 56-25, saith cais ar hugain yn erbyn pedwar. Penderfynais nad ymwelwn byth eto â'r lle.

Fel y mae hi ar hyn o bryd, mynwent sydd ei hangen ar lan Afon Taf, nid Stadiwm newydd.

## DINASYDDION AR YR AWYR

Mae S4C wedi rhoi llawer o sylw'n ddiweddar i 'Haf o Hyd' sef eu rhaglenni yn ystod yr haf. Bydd rhai wedi cael eu darlledu erbyn ichi ddarllen y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*, ond mae'n dda gennym ddweud na fyddai'r rhaglenni'n gymaint o lwyddiant heb gymorth rhai o'n dinasyddion.



*Huw Llywelyn Davies, un o feistri'r cyfryngau*

Huw Llywelyn Davies, Radyr, wyneb cyfarwydd iawn sy'n cael y dasg o ddarlledu o Eisteddfod Gydwladol Llangollen.

Huw yw un o'n darlledwyr mwyaf profiadol ac mae'n dda gwrando ar rywun sydd mor raenus ei Gymraeg yn ein harwain trwy raglenni. Mae Huw'n wreiddiol o Wauncaegurwen ond gall y ddinas ei hawlio mwyach.

Un arall o'n dinasyddion yw Nia Lloyd Jones, sydd wedi dod atom yr holl ffordd o Borthaethwy. Mae hi gyda Sulwyn Thomas ac Alwyn Siôn yn mynd â'r Sioe Fach trwy Gymru. Gyda nhw fe fydd Siân Cothi Morgan sydd hefyd wedi ymsefydlu yn y brifddinas. Mae ei gwreiddiau hi yn ardal Farmers, nid nepell o Lanbedr Pont Steffan.



*Siân Cothi Morgan, un â diddordeb byw ym mywyd y wlad.*

Rhaglen sydd ag enw diddorol arni yw 'Ras Bysgota'. Y tri fydd yn rhwydo'r dŵr yn y rhaglenni hyn yw Cadfan Roberts (wedi atgyfodi o fynwent 'Pobol y Cwm'), Dudley Newbery ac Amanda Protheroe Thomas. Mae Dudley Newbery yn un o gyn-ddisgyblion Rhydfelen ac wedi gwneud marc o bwys ym myd coginio.

* * *



*Nia Lloyd Jones, un o blant sir Fôn*

# Dysgwyr y Ddinas

**dan ofal Gill Stephen**

*Shwmae eto!*

Roedd ein **Hysgol Undydd** gyntaf ar y 1 Mehefin yng Nghanolfan Howardian yng Nghaerdydd yn llwyddiant ysgubol. Roedd mwy na 40 o bobl yno o bob **safon** gan gynnwys dosbarth o ddechreuwyr doedd dim wedi bod mewn dosbarth o'r blaen o gwbl! Roedden nhw **dan ofal** Carole Bradley yn cael blas ar y Gymraeg ac yn amlwg yn mwynhau am eu bod nhw eisoes wedi **cofrestru** am y cwrs nesaf. Cafodd pawb hwyl fawr, ac aeth sawl un adref y noson honno yn siarad Cymraeg â'i gilydd ar ôl cyrraedd yn siarad Saesneg! Mae'r llun yn dangos dosbarth Steffan Webb ond roedd Gareth Kiff ac Andrew Currie yn dysgu yno hefyd, diolch yn fawr iddyn nhw! Os ydy unrhyw un eisiau gwybod mwy am yr Ysgolion Undydd dros yr haf dylen nhw gysylltu â Gill Stephen, Tiwtor Drefnydd Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro, ar Gaerdydd 481280 est. 236.



*Dosbarth Steffan Webb*

**GEIRFA**
**Ysgol Undydd** - Day School **safon** - standard
**dan ofal** - in the care of **cofrestru** - to register

Dyma gystadleuaeth arall gyda'r un thema *(on the same theme)* â'r mis diwethaf, sef priod-ddulliau *(idioms)* Cymraeg.
Y cwestiwn y tro diwethaf oedd beth yw

'Not a snowballs chance in Hell'.
Yr ateb yw **'Dim gobaith caneri'**

Bydd enwau yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd.*

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn ydych chi'n gwybod (neu ydych chi'n gallu holi eich tiwtor) beth yw

**'If at first you don't succeed, try, try again'**

yn Gymraeg? Does dim eisiau cyfieithiad gair am air.

Mae **Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,** yn cynnig crys T neu fyg y Gymdeithas i'r tri pherson cyntaf gyda'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, CAERDYDD CF2 3AD

## Oes angen adolygu?

WEL, DEWCH I DDYSGU BOB NOS IAU!!
Bydd ein cyrsiau haf yn dechrau yn fuan.
CWRS ADOLYGU WLPAN
CWRS ADOLYGU UWCH
Dechrau: 25/7/96. Nos Iau, 7 tan 9 o'r gloch
Tâl: £20 am 7 wythnos

Am fwy o fanylion cysylltwch â Paul Leonard: Caerdydd (01222)452168 neu Dafydd Bridle: Caerdydd (01222) 486469. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd. CF2 3AJ.

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO


| | |
|---|---|
| **15fed Gorffennaf** 7.00 - 9.00 | Barbiciw y Clwb Siarad, Canolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri. Dewch â salad neu fara garlleg neu ddiod i'w rhannu os gwelwch yn dda. £2.00 y pen. Croeso i bawb. Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Mawrth** 9.30pm - 11.30pm | Mae grŵp o bobl yn cyfarfod i sgwrsio'n anffurfiol yn yr Hen Goleg, Y Bont-faen. Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob nos Fawrth** 6.30 - 8.30 (yn dechrau 23/7/96) | 'Open Learning Sessions', Canolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri. Dewch â'ch llyfrau, dewch i siarad! |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel). Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Ysgol Victoria, Penarth Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Unwaith y mis** | Clwb Siarad, Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. (Trefnwyd gan Gonsortiwm De Morgannwg) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

# LLINYN MESUR

*gyda*

***Huw Edwards a Sian Pari Huws***





***Golwg ar Gymru a'r byd***
***o'r maes gwleidyddol i'r maes chwarae***

***1 tan 2 ar y Sul***

BBC RADIO CYMRU

***92-105fm***



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

*Mae cyfle i apwyntio o'r newydd i ddwy swydd yn ein swyddfa Personel prysur. Mae rhugledd yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer y ddwy swydd.*

## TEIPYDD

**Cyflog dechreuol: £7,250 - £10,700 (gyda chynnydd i ddod eleni)**
**Swydd tros dro ar hyn o bryd, hyd ddiwedd Mawrth 1997**

Yn ogystal â pharatoi darpariaeth teipio dwyieithog i'r adran, trwy gopi a chlywdeipio, mae dyletswyddau sustemau swyddfa i'w cadw a'u datblygu ymhellach. Cynnwys hyn cadw'r llyfr post dyddiol, darparu pecynau gwybodaeth i ymgeiswyr am waith a chadw trefn ar y ffeiliau cyffredinol. Mae sgiliau ffôn yn allweddol.
*[Cyf: T/02/RM/PE]*

## GWEINYDDYDD

**Cyflog dechreuol: £9,200 - £12,500 (gyda chynnydd i ddod eleni), yn cynnwys pensiwn**

Prif gyfrifoldeb y swydd yma yw sicrhau fod cofnodion personel y sefydliad yn llawn a chywir bob amser ac i ddarparu adroddiadau effeithiol i reolwyr yr Amgueddfa. Mae sgiliau cyfrifiadurol yn bwysig iawn gan fod angen chwarae rhan blaenllaw yn ein cynlluniau i drosglwyddo i becyn arbennigol yn ystod y misoedd nesaf. Hefyd, cynnwys y gwaith ddarpariaeth gweinyddol i'r adran a chynorthwyo gyda'n trefniadau recriwtio a hyfforddi.
*[Cyf: AO/02/RM/PE]*

*Am fanylion pellach a ffurflen gais ffonier ein gwasanaeth ffôn ateb ar 01222 645511 gan ddyfynnu'r cyfeirnod perthnasol. Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 12 Gorffennaf 1996.*



Cyllid y Wlad

DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993
YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS
AR GYNLLUN IAITH CYMRAEG
(DRAFT)

(24 Mehefin - 18 Awst 1996)

Mae Cyllid y Wlad wedi paratoi Cynllun Iaith Cymraeg sy'n egluro sut y mae'n bwriadu darparu ei gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'n gwahodd sylwadau arno gan "aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y cynllun effeithio arnynt" yn unol ag Adran 13 y Ddeddf.

Gellir cael copïau o'r cynllun draft yn ddi-dâl drwy gysylltu â :-

Peter R Robins
Pennaeth yr Uned Gymraeg
Cyllid y Wlad Cymru a Chanolbarth Lloegr
Tŷ Glas
Llanishen
Caerdydd
CF4 5TS
Teleffôn : 01222 - 755789 est 6639
Ffacs : 01222 - 689692

Bydd copïau hefyd ar gael ymhob Canolfan Ymholiadau Treth, yng Nghymru.

Dylid anfon sylwadau at Peter Robins **erbyn 18 Awst 1996**.

Ar sail y sylwadau, paratoir adroddiad i'w gyflwyno gyda'r Cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.




TENOVUS
*yr elusen canser Gymreig*

**TREFNYDD SIOPAU,**
**De Orllewin Cymru**

I reoli ein siopau elusen presennol, ac i helpu datblygu rhagor yn yr ardal, mae Tenovus yn chwilio am Drefnydd amser-llawn gyda phrofiad o'r byd ad-werthu a dealltwriaeth o weithio gyda gwirfoddolwyr.
Cynigir cyflog o £13,000 a darperir car.

Am fanylion pellach cysyltlwch â Peter Searle, Tenovus, 11, Whitchurch Road, Caerdydd, CF4 3JN. 01222 621433, Cyn Gorffennaf 5ed.




# Llond gwlad o hwyl ar S4C

O 'Steddfod Llandeilo i 'Steddfod Llangollen, o Sioe Fawr Llanelwedd i sioe fach Llanfyllin, o bentre' Cwmderi i stad Pengelli, ac o rasus Tir Prins i'r ras bysgota, bydd S4C yno. Dewis hael o raglenni ar gyfer nosweithiau hirfelyn tesog. O na fyddai'n haf o hyd!

**http://www.s4c.co.uk**

haf o hyd

S4C